Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **11 Mehefin 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-06/19: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Phil Jones; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. William A Evans; Cyng. Robert T Price; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Angela Hughes

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-06/19 Ymddiheuriadau:

Cyng. Sian Williams; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Eirwyn Williams;

3-06/19: Datgan diddordeb

4-06/19 Cadarnhau cofnodion mis Mai 2019
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-06/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

a. Llongyfarchwyd y Cyng. Robert Cadwalader ac aelodau grŵp Amgueddfa Môr Porthmadog ar dderbyn gwobr y Frenhines am wasanaeth gwirfoddol.

6-06/19: Gohebiaeth

a. Cyngor Gwynedd – Panel Apêl a Phanel Apêl Gwaharddiad Disgyblion – llythyr 2 Mai 2019
Derbyniwyd gwahoddiad i enwebu aelodau i banelu apêl.

Penderfyniad*:* Aelodau i ymateb yn unigol os oes diddordeb ganddynt.

b. Cyngor Gwynedd - "Deddf Cymalau Heddlu Trefol, 1847 - Adran 21 "Cau Lôn Felin Criccieth - Diwrnod Agored y Bad Achub Criccieth - 24ain o Awst 2019 - e-bost 17 Mai 2019
Roedd gorchymyn i gau'r lôn

Penderfyniad*:* Nodwyd a derbyniwyd y wybodaeth

c. Cyngor Gwynedd - Toiledau Cyhoeddus – llythyr 17 Mai 2019

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn diolch i'r Cyngor am gytuno i bartneriaeth ar y cyd â Chyngor Gwynedd i gadw darpariaeth toiledau cyhoeddus yn y gymuned ar agor yn ystod 2019-21 - 'roedd angen arwyddo copi o'r cytundeb.

Penderfyniad*:* Derbyn y wybodaeth ac arwyddwyd y cytundeb.

d. Cyngor Gwynedd – Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig – Ardal Dwyfor 2019 – Criccieth, Llanbedrog a Phorthmadog – llythyr 22 Mai 2019
Yn dilyn archwiliadau roedd y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad y bwriad cyflwyno cyfyngiadau parcio yn y lleoliadau - dim aros ar unrhyw adeg ger Antipodes Terrace, Criccieth.
Penderfyniad*:* Nid oedd gan y Cyngor Tref wrthwynebiad i'r bwriad ond mynegwyd pryder nad oedd hyn yn gam digonol o gofio bod damwain angheuol wedi digwydd i blentyn blynyddoedd yn ôl pan oedd llawer llai o blant a thraffig yn y cyffiniau. Roedd y Cyngor Tref yn bryderus am y sefyllfa ac y dylid atgoffa Cyngor Gwynedd am hyn.

e. Cymru a diwrnod VE 75 – 8fed Mai 2020 – llythyr 23 Mai 2019
Cylchredwyd llythyr yn holi a oedd diddordeb gan y Cyngor Tref ymwneud â Diwrnod VE.

Penderfyniad*:* Cytuno i weithio mewn partneriaeth gyda'r Neuadd Goffa ar gyfer yr achlysur.

f. Un Llais Cymru - Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru - 10 Gorffennaf 2019 - e-bost 3 Mehefin 2019
Cylchredwyd manylion am y gynhadledd.

Penderfyniad*:* Y Cyng. Robert Cadwalader a'r Clerc i fynychu.

g. Un Llais Cymru - Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned -e-bost 20 Mai 2019-
Cylchredwyd y protocol ar gyfer datrys cwynion yn lleol.

Penderfyniad*:* Derbyn a mabwysiadu'r protocol gan y byddai'n help medru ceisio datrys cwynion priodol yn lleol cyn mynd i'r Ombwdsmon.

7-06/19: Ceisiadau Cynllunio

a. C19/0500/35/LL Codi adeilad amaethyddol gyda storfa slyri oddi tano - Fferm Penystumllyn, Ffordd Porthmadog, Criccieth, LL52 0PS

Penderfyniad*:* Dim gwrthwynebiad

b. .C19/0507/35/CT – Torri Coed ardal cadwraeth – 46, Gorseddfa, Criccieth, LL52 0DW

Penderfyniad*:* Dim gwrthwynebiad

Roedd un cais ychwanegol wedi ei dderbyn ers cyhoeddi'r agenda:

c. C19/0495/35/LL – Dymchwel estyniad to fflat presennol a chodi estyniad deulawr to pits yn ei le – 12, Arfonia, Criccieth, LL52 0BL

Penderfyniad*:* Dim gwrthwynebiad

8-06/19: Llenwi sedd wag y Cyngor Tref

Nodwyd bod y rhybudd o sedd wag wedi cael ei rhoi ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref a'r safle We am y cyfnod penodol er mwy rhoi siawns i etholwyr ddefnyddio eu hawl i ofyn am etholiad. Os na fydd cais wedi dod i law erbyn y dyddiad cau, sef 28 Mehefin bydd hawl gan y Cyngor i gyfethol i'r sedd wag.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a gweithredu fel a ganlyn: os na fydd cais am etholiad cytunwyd y dylai'r Clerc rhoi'r rhybudd priodol am fwriad y Cyngor i lenwi'r sedd wag drwy gyfethol, gan wahodd ceisiadau erbyn 16 Awst 2019.

9-06/19: Awdit Allanol o gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer 2018-19 – Ffurflen Flynyddol

Roedd yr archwilydd mewnol wedi cwblhau ac arwyddo'r adrannau perthnasol o'r ffurflen archwiliad allanol ar gyfer 2018/19 – a oedd wedi ei gylchredeg i'r Cynghorwyr. Nodwyd y byddai'r Clerc yn trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos ar hysbysfwrdd y Cyngor a'r safle We am y cyfnod priodol a nodwyd gan yr Archwilwyr Allanol (BDO) er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd weld y cyfrifon. Roedd angen cyflwyno'r wybodaeth archwilio i'r BDO a'r dystiolaeth y gofynnwyd amdano erbyn 1 Gorffennaf 2019. Roedd y Cyngor hefyd wedi derbyn copi o'r tabl o'r prif wahaniaethau rhwng 2017/18 a 2018/19 a thaflen datganiad cyfrifon 2018/19.

Penderfyniad: Derbyniwyd y wybodaeth ac ystyriwyd a chymeradwywyd y ffurflen flynyddol cyn cyflwyno'r ffurflen derfynol i'r Cyngor i'w harwyddo gan y Clerc a'r Cadeirydd. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

10-06/19: Asesiad Angen Tai yng Nghriccieth

Nodwyd y byddai cyflwyniad gan swyddog o Grŵp Cynefin ynglŷn â pharatoi asesiad angen tai yng Nghriccieth yng nghyfarfod mis Gorffennaf

Penderfyniad Derbyn er gwybodaeth.

11-06/19: Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth

Nodwyd bod safle We "WWI Community Platform and Archive" gan y Centre for Data Digitisation and Analysis and Living Legacies 1914-18 Queen's University Belfast wedi cael ei lansio a bod prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth arno. Roedd y Ganolfan yn falch iawn i glywed am lwyddiant y prosiect a gwobr Treftadaeth Orau Un Llais Cymru a byddant yn tynnu sylw at hyn.

Nodwyd bod angen cyflwyno gwariant y gyllideb i Swyddfa'r Loteri erbyn diwedd Mehefin.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad a nodi gyda balchder bod Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth yn rhan o'r archif.

12-06/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a. Strydoedd Unigryw
Yn unol â phenderfyniad y Cyngor yn y cyfarfod diweddaf, nodwyd bod y Panel Dewis Cerflun wedi cwrdd ar 4 Mehefin a bod cynnig cerflun cyffrous gan Howard Bowcott wedi dod i'r brig. Bydd angen hawl cynllunio ar gyfer ei leoli ar y Maes Nodwyd bod trefniadau yn mynd yn dda ar gyfer diwrnod Digwyddiad Creadigol 3/8 – a lot o waith cyffrous yn mynd ymlaen fel rhan o'r prosiect.

Roedd angen llofnodi'r contract a oedd wedi ei baratoi gan Arloesi Gwynedd Wledig ar gyfer y prosiect.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a diolch yn fawr am y gwaith da sydd yn mynd ymlaen ar gyfer y prosiect. Cytunwyd y dylid derbyn adroddiad ar y trefniadau terfynol am y digwyddiad gan gynnwys yr asesiad risg yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref. Arwyddwyd y cytundeb a oedd wedi ei baratoi gan Arloesi Gwynedd Wledig.

b. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell -
Roedd adroddiad ar gyflwr yr adeilad i'w ddisgwyl.
Penderfyniad: Derbyn er gwybodaeth ac i drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

c. Cynllun Cymunedol -wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Tref.
Penderfyniad: I drefnu cyfarfod o Grŵp Llywio'r Cynllun Cymunedol ar nos Fawrth i'w gytuno ym mis Gorffennaf.

13-06/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Nodwyd bod gohebiaeth yn cymryd lle gyda'r cyfreithiwr â Chyngor Gwynedd am adeilad y Llyfrgell.

Roedd disgwyl am ymateb gan Gyngor Gwynedd.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

14-06/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

Nodwyd bod adroddiad gan Swyddog Gwynedd i'w ddisgwyl.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

15-06/19 Torri gwair yn y dref

Dim byd i'w adrodd

16-06/19 Parcio yng Nghriccieth

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, roedd y Clerc wedi sgwennu at Swyddog Gwynedd ynglŷn ag arwydd parcio i'r maes parcio ger y Stryd Fawr. Maent yn ymwybodol bod parcio ar y ffordd fawr yng

Nghriccieth yn creu problemau trafnidiaeth drwy'r dref a bod angen edrych ar gyfleoedd i ddatrys y broblem. Maent am edrych i mewn i leoliadau a dyluniadau addas ar gyfer gosod arwyddion priodol ac am gysylltu'n ôl yn fuan gydag awgrymiadau.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad

17-06/19 Torri coed yng Nghriccieth

a. Codwyd consyrn am botensial i ddiogelwch y cyhoedd oherwydd cyflwr bregus yr olwg coeden fawr a oedd yn tyfu yn y darn tir gyferbyn â Gwesty'r George.

   Penderfyniad: i ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i dynnu sylw at y broblem a gofyn iddynt gysylltu gyda pherchennog y tir.

b. Codwyd hefyd y posibilrwydd o fuddsoddi mewn rhaglen plannu coed yng Nghriccieth yn sgil y torri oedd wedi digwydd yn y dref yn y blynyddoedd diweddar. Byddai hyn o fudd i'r gymuned, yn ymarfer amgylcheddol dda ac yn cyd-fynd gydag ymrwymiad y Cyngor Tref i'r Siarter Coed.

   Penderfyniad: I gyfeirio'r mater i Grŵp Llywio'r Cynllun Cymunedol.

18-06/19 Meinciau Tref Criccieth

a. Roedd y Cyng. Eirwyn Williams wedi bod mewn cyswllt gyda Swyddog Cyngor Gwynedd am y meinciau ar y Prom ac wedi cael ymateb i ymddiheuro nad oedd y gwaith wedi ei wneud - er i'r Cyngor drafod y gofynion gyda chontractwr lleol methiant oedd ymgymryd â'r gwaith. Os byddai adnoddau yn caniatáu byddant yn ail ymweld â phosibiliadau yn 2019.

   Penderfyniad:. I sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd i holi am eglurder ynglŷn â beth a olygir yn union gan adnoddau.

b. Nodwyd bod aelodau o Criccieth yn ei Blodau a'r Grŵp amgylcheddol yn hapus i baentio a thwtio nifer o feinciau o gwmpas y dref.

   Penderfyniad: Rhoi hawl i'r Cadeirydd a'r Clerc gymeradwyo gwariant cyllidol rhesymol i wneud y gwaith yma fel rhan o'r Cynllun Cymunedol ac i adrodd nôl i'r Cyngor.

19-06/19 Llwybrau Cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11
Aros am adroddiad nôl gan Swyddog Cyngor Gwynedd

Penderfyniad:. Derbyn y wybodaeth

20-06/19 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref
Aros am ddyddiad i'w osod..

Penderfyniad:. Derbyn y wybodaeth

21-06/19 Derbyniadau
Ad-daliad TAW - £3591.15

22-06/19: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £19.69 (siec 101332)
- Cyflog y Clerc (Mai) £770.06 (siec 101333)
- Costau Teithio (Clerc) £15.30 (siec 101334)
- C & M J Jones £277.00 (siec 101335)*

*Anfoneb ychwanegol wedi ei dderbyn ers cyhoeddi'r agenda.

Penderfyniad: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 9 Gorffennaf 2019**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **1 Gorffennaf 2019**